Bwrdd Diogelu Caerdydd a Bro Morgannwg

# Adolygiad Ymarfer Plant Hanesyddol 022019

*Hydref 2022*

Adolygwyr:

**Barbara J Firth**

**Melanie Roach**

Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board

# Datganiad Rhagarweiniol ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Hanesyddol 022019

Mae'r adolygiad amgaeëdig wedi'i gwblhau ar ran Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg gan ddau adolygydd annibynnol.

Mae'r achos hanesyddol hwn o gam-drin plant yn rhywiol wedi cael llawer o sylw yn y cyfryngau yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf.

Cafwyd y troseddwyr yn euog yn Hydref 2018 ac yn dilyn hyn comisiynwyd yr adolygiad gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.
Diben adolygiadau ymarfer plant yw canfod sut y cydweithiodd asiantaethau i amddiffyn plant a allai fod wedi bod mewn perygl o niwed. Mae'r broses fel arfer yn cynnwys ymarferwyr a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r achos a'r plentyn/plant neu'r teulu y maent wedi gweithio gyda nhw. Nid yw'n ymchwiliad i sut na pham y digwyddodd. Mater i'r llysoedd troseddol benderfynu arno yw hynny. Yn yr achos hwn, fel y nodwyd uchod, roedd yr achos troseddol wedi dod i ben a chafwyd y ddau droseddwr yn euog.
Roedd proses yr adolygiad hanesyddol hwn yn wahanol gan ei fod yn cwmpasu cyfnod a ddechreuodd o leiaf 35 mlynedd yn ôl. Roedd yr achosion o gam-drin wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd, gan ddod i ben fwy nag 20 mlynedd yn ôl. Felly, roedd yn amhosibl cynnwys unrhyw ymarferwyr a oedd wedi bod yn gweithio ar yr adeg honno.

Felly, penderfynodd y panel adolygu weithio gydag ymarferwyr presennol i edrych ar newidiadau dros amser ac archwilio'r arferion presennol er mwyn sicrhau bod cymorth ac adnoddau da i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda CSAE a dioddefwyr bellach ar gael. Cytunodd y panel hefyd i gyfeirio'n ôl at argymhellion Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol 2016 (FfPA) a nododd fod pethau i'w dysgu o sawl achos cysylltiedig o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.
Cynhaliwyd trafodaethau yn y panel adolygu ynghylch cynnwys dioddefwyr yr achosion o gam-drin ond ar ôl cael cyngor gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, penderfynwyd, oherwydd natur hanesyddol yr achosion o gam-drin, y byddai hyn wedi bod yn brofiad anodd iawn iddynt ei ddwyn ar gof a allai fod wedi achosi trawma pellach.
Felly, mae cynnwys yr adolygiad yn canolbwyntio ar ddatblygu arfer cyfredol mewn ymateb i'r achos hanesyddol hwn o gam-drin rhywiol.

# 1. Y CEFNDIR A’R AMGYLCHIADAU SY'N ARWAIN AT YR ADOLYGIAD HWN

1.1. Ym mis Hydref 2018 cafwyd cwpl priod, Mr a Mrs M, yn euog o droseddau rhywiol hanesyddol yn erbyn menywod ifanc. Cyflawnwyd y troseddau yn ystod y 1980au, 1990au a 2000au a digwyddodd y mwyafrif yn y Barri a’r cyffiniau, er bod rhai wedi digwydd y tu allan i’r ardal. Yr oedd o leiaf 5 o ddioddefwyr wedi'u nodi ac yr oedd pob un ohonynt wedi dod i gysylltiad â theulu Mr a Mrs M yn ystod y cyfnod hwn

1.2. Gwnaed y rhan fwyaf o ddatgeliadau pan ddaeth y dioddefwyr yn oedolion, ac ymchwiliwyd yn llawn i'r achos o ganlyniad i'r datgeliadau hanesyddol hyn.

1.3. Roedd un o'r dioddefwyr yn berthynas i'r cwpl tra bod eraill yn ffrindiau i deulu'r cwpl. Mae'n ymddangos bod y dioddefwyr wedi'u hannog i fynd i gartref y teulu. Roedd un o'r dioddefwyr yn destun Gorchymyn Gofal i Wasanaethau Cymdeithasol Derby ac roedd wedi symud i'r Barri gyda'i gofalwyr maeth hirdymor ym 1998.

1.4. O ddatganiadau'r 5 dioddefwr hysbys, mae patrwm yn dod i'r amlwg eu bod wedi cael eu paratoi gan Mr a Mrs M dros gyfnod o amser. Roedd y gwaith paratoi wedi arwain at gam-drin rhywiol a cham-fanteisio. Soniodd un dioddefwr ei bod wedi caru byw yng nghartref Ms i ddechrau, gan eu bod yn caniatáu iddi wneud pethau nad oedd ei rhieni yn eu caniatáu, fel yfed alcohol ac ysmygu.

1.5. Roedd y cam-drin rhywiol yn cynnwys trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol yng nghartref y teulu, yn aml ar ôl i’r dioddefwr gael ei chyffurio, yn ogystal â chael ei gyrru i

safleoedd rhyw cyhoeddus a'i threisio dro ar ôl tro. Mae cyfrifon y dioddefwyr i gyd yn cyfeirio at nifer o ddynion anhysbys yn cyflawni troseddau difrifol mewn modd a oedd wedi'i ragfwriadu a'i drefnu o flaen llaw.

1.6. Gall plant sy'n dioddef cam-drin a cham-fanteisio rhywiol ddioddef trawma a nam difrifol ar eu hiechyd am flynyddoedd lawer ac nid yw'r dioddefwyr yn yr achos hwn yn wahanol. Fodd bynnag, yr hyn sy'n amlwg iawn hefyd yw'r effaith andwyol ar blant Ms eu hunain. Mae trais yn y cartref, caethiwed ac afiechyd meddwl yn amlwg iawn yn eu bywydau fel oedolion.

1.7. Diben yr adolygiad hwn yw datblygu arfer cyfredol mewn ymateb i'r achos hwn sy'n cynnwys cam-drin hanesyddol lluosog wedi'i drefnu a bwriadu. Bydd y meysydd a ystyrir yn ymgorffori prosesau, agweddau sefydliadol a diwylliannau gwell mewn perthynas â'r troseddau hyn.

## 2. CYD-DESTUN HANESYDDOL

2.1. Er mwyn deall y camau a gymerwyd neu nas cymerwyd gan weithwyr proffesiynol a gwasanaethau ar y pryd, mae'n bwysig deall y cyd-destun hanesyddol a datblygiad y ddeddfwriaeth a gwybodaeth ac ymarfer proffesiynol.

2.2. Ar ddechrau'r 1970au, y ddeddfwriaeth sylfaenol yr oedd gweithwyr proffesiynol yn gweithio oddi tani oedd Deddf Plant 1948 a oedd yn nodi bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gofal ar gyfer unrhyw blentyn nad oedd ei rieni'n gallu gofalu amdano, pe bai hyn er lles pennaf y plentyn. Daeth y gweithdrefnau amddiffyn plant cyntaf i fodolaeth yn

dilyn Ymchwiliad Maria Colwell yn 1973[1]. Fodd bynnag, roedd y ffocws ar gam-drin corfforol neu 'anaf nad yw'n ddamweiniol' fel y'i gelwir. Tynnodd Deddf Plant 1975 sylw at bwysigrwydd lles plant. Sefydlodd hefyd rôl gweithiwr cymdeithasol annibynnol i sicrhau buddiannau gorau'r plentyn yn ystod achosion llys.

2.3. Ar ddechrau'r 1980au roedd ymwybyddiaeth gynyddol o fodolaeth cam-drin plant yn rhywiol a arweiniodd at ddatblygu dulliau ymchwilio ar y cyd rhwng yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol. Drwy gydol y 1980au cafwyd nifer o ymchwiliadau amddiffyn plant proffil uchel i farwolaethau plant, ond hefyd 'Ymchwiliad Cleveland' ym 1988. Comisiynwyd hwn i edrych ar drefniadau ar gyfer delio â honiadau o gam-drin rhywiol ar ôl i 121 o blant gael eu tynnu oddi ar eu rhieni, yn seiliedig ar brawf diagnostig dadleuol gan bediatregwyr yn Ysbyty Middleborough. Daeth i'r casgliad bod y rhan fwyaf o'r diagnosisau yn anghywir, er bod rhaglen ddogfen deledu ym 1997 yn anghytuno â hyn.

2.4. Sefydlodd Deddf Plant 1989 y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y system amddiffyn plant presennol yng Nghymru a Lloegr. Mae'n nodi'r egwyddor hollbwysig; mai lles y plentyn ddylai fod yn brif ystyriaeth y llys. Ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth hon oedd y fersiwn gyntaf o'r canllawiau statudol 'Gweithio Gyda'n Gilydd', a oedd yn nodi'r trefniadau i asiantaethau weithio gyda'i gilydd i amddiffyn plant. Roedd yn nodi'r pedwar categori o gam-drin, corfforol, emosiynol, rhywiol ac esgeulustod. Dros y blynyddoedd mae'r canllawiau hyn

---

[1] Yn 7 oed lladdwyd Maria Colwell gan ei llys-dad ar ôl cael ei dychwelyd adref o ofal maeth. Canfu'r ymchwiliad cyhoeddus a ddilynodd ei marwolaeth fod Maria wedi'i methu gan y system amddiffyn plant.

wedi'u diwygio a'u diweddaru i adlewyrchu'r cyd-destun newidiol a'r sylfaen wybodaeth sy'n datblygu.

2.5. Gwelodd y 1990au ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gynyddol o gam-drin plant yn rhywiol. Daeth Unedau Cymorth i Deuluoedd Heddlu De Cymru i fodolaeth ac yna fe'u datblygwyd yn Unedau Amddiffyn Plant sy'n ymdrin â dioddefwyr a throseddwyr. Yn ei dro, datblygodd y rhain yn Unedau Diogelu'r Cyhoedd gyda chylch gwaith ehangach.

2.6. Creodd Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 swydd gyntaf y Comisiynydd Plant yn y DU ac yn 2003 datblygwyd y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (sef y MARAC) gyntaf yn y DU yng Nghaerdydd.

2.7. Mewn deddfwriaeth, ymddangosodd yn 2003 pan ddaeth yn drosedd yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003.

2.8. Yn y cyfamser yn dilyn marwolaeth Victoria Climbie[2] arweiniodd adroddiad yr ymchwiliad a gyhoeddwyd yn 2003 at newidiadau ysgubol mewn systemau amddiffyn plant. Sefydlodd Deddf Plant 2004 Fyrddau Lleol Diogelu Plant a phwysleisiodd hefyd y ddyletswydd i gydweithredu a phwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i ddiogelu plant a hyrwyddo eu lles.

2.9. Yn 2008, cafodd 'Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan' eu gwella i gynnwys polisïau a gweithdrefnau ar wahân ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Plant sy'n Mynd ar Goll ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol.

---

[2] Y Llyfrfa (2003) *Ymchwiliad Victoria Climbie: adroddiad ar ymchwiliad gan yr Arglwydd Laming*

2.10. Yn 2013 cynhaliwyd adolygiad annibynnol o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn Rochdale a archwiliodd ymateb y Cyngor i faterion yn ymwneud â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant ar ôl i 47 o ferched gael eu hadnabod fel dioddefwyr. Yn 2015 lansiwyd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru a Lloegr (sef yr IICSA) yn swyddogol i ystyried y dystiolaeth gynyddol o fethiant sefydliadol i amddiffyn plant rhag cam-drin plant yn rhywiol.

2.11. Yn 2016 comisiynodd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (FfPA) i nodi'r hyn a ddysgwyd o un ar ddeg o achosion cysylltiedig o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant, a gam-driniwyd gan yr un cyflawnwr. Roedd y rhan fwyaf o'r dioddefwyr yn blant sy'n derbyn gofal neu roedd ganddynt brofiad o dderbyn gofal. Gwnaeth yr adroddiad 17 o argymhellion ac mae gwaith ar bob un ohonynt wedi'i gwblhau. Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- Adolygu effeithiolrwydd addysg perthynas iach
- Datblygu dulliau arfer gorau
- Cyngor, arweiniad a hyfforddiant i'r gweithlu
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd
- Datblygu mecanweithiau i ymgynghori'n systematig a chyfathrebu â phlant sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o gam-fanteisio rhywiol
- Adolygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion diogelu a therapiwtig plant sydd mewn perygl o gam-fanteisio rhywiol neu sy'n destun cam-fanteisio rhywiol

## 3. PROSES YR ADOLYGIAD

3.1. Gan fod hwn yn adolygiad hanesyddol lle nad oedd unrhyw ymarferwyr na rheolwyr presennol yn cymryd rhan, roedd wedi'i

strwythuro ychydig yn wahanol i'r Adolygiad Ymarfer Plant arferol. Cynullwyd Panel Adolygu a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd ac fe'i cadeiriwyd gan Bennaeth Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.  Roedd aelodau'r Panel yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:

- Addysg, Bro Morgannwg
- Heddlu De Cymru
- Gwasanaethau Plant, Bro Morgannwg
- Gwasanaethau Plant, Caerdydd (Adolygydd Cysgodol)
- Cyfreithiol
- Prawf
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

3.2. Wrth wraidd yr adolygiad roedd Digwyddiad Dysgu rhithwir hanner diwrnod a fynychwyd gan 19 o gyfranogwyr o bob gwasanaeth statudol ac ystod eang o wasanaethau gwirfoddol. Fe'i cynlluniwyd fel digwyddiad ymarfer myfyriol gyda'r nod o rannu gwybodaeth a phrofiad proffesiynol, cynyddu hyder a datblygu meddwl ac ymarfer.  Gofynnwyd i'r cyfranogwyr gwblhau arolwg cyn y digwyddiad a oedd yn gofyn am eu profiad o Gam-drin a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CChRhB); pa mor hyderus yr oeddent yn teimlo wrth weithio gyda hyn a beth allai fod yn wahanol pe bai'r senario hwn yn digwydd heddiw.

3.3. Roedd y rhaglen ar gyfer y Digwyddiad Dysgu yn cynnwys:

- Yr amgylchiadau sy'n arwain at yr adolygiad
- Adroddiad ac argymhellion FfPA 2016
- Myfyrdod cychwynnol i ystyried os yw pethau wedi newid, a sut
- Crynodeb o'r ymatebion i'r arolwg cyn y digwyddiad

- Gwaith grŵp bach i feddwl am y cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen ar ddioddefwyr i oresgyn trawma Cam-drin a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- Gwaith grŵp bach i archwilio pa gymorth ac adnoddau sydd eu hangen ar weithwyr proffesiynol er mwyn bod yn effeithiol wrth weithio gyda Cham-drin a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CChRhB)

3.4. Mae'r deunydd a gynhyrchwyd gan y Digwyddiad Dysgu a'r trafodaethau o fewn y Panel Adolygu yn sail i'r adroddiad hwn.

## 4. PWYNTIAU DYSGU ALLWEDDOL

4.1. Dangosodd trafodaeth gytundeb gyffredinol bod **cynnydd wedi'i wneud o ran deall, cydnabod ac ymateb i Gam-drin a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant** a bod hyn wedi'i helpu gan dimau ymroddedig, sy'n gallu cyfrannu at ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd. Fodd bynnag, nid oedd pob cyfranogwr yn teimlo'n hyderus a mynegodd rhai bryder ynghylch sut i ymyrryd yn effeithiol er mwyn sicrhau newid mewn sefyllfa a'r ffordd orau o gefnogi dioddefwyr (CChRhB).

4.2. **Gellir datblygu hyder a dealltwriaeth drwy drafodaethau gyda chyfoedion** ond mae'r newid i weithio gartref yn ystod pandemig COVID wedi lleihau'r cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth a phrofiad yn anffurfiol. O ystyried ei bod yn debyg y bydd y newid hwn mewn arferion gwaith yn parhau ar ôl y pandemig, mae'n codi'r cwestiwn sut i sicrhau cefnogaeth barhaus a thrafodaeth broffesiynol? Mae cyfarfodydd rhithwir rheolaidd yn bwysig ond mae annog gweithwyr proffesiynol i ffonio’i gilydd i siarad am bethau hefyd yn bwysig.

4.3. **Mae angen rhoi sylw i les staff**. Maent yn gweithio gyda senarios anodd yn eu cartrefi eu hunain ac felly gall y gwahaniaeth rhwng bywyd cartref a bywyd gwaith fod yn aneglur. Mae perygl hefyd y bydd gweithwyr proffesiynol yn cael eu hynysu oddi wrth ei gilydd ac yn gweithredu mewn seilos.

4.4. Un o'r prif faterion i weithwyr proffesiynol yw **sut i symud ymlaen o fod yn adweithiol, h.y. aros am ddatgeliad o CChRhB i fod yn rhagweithiol** a mynd ati i chwilio am arwyddion o gam-drin a'u hadnabod. Yn aml, mae’r gymuned leol yn meddu ar rywfaint o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd mewn teuluoedd a grwpiau cyfoedion. Fodd bynnag, mae rhaniad o hyd rhwng cymunedau a systemau proffesiynol. Mae angen gwella hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau statudol er mwyn cydweithio'n agosach. Rhoddir gormod o gyhoeddusrwydd i ormod o adroddiadau gwael ac anwybyddir y gwaith cadarnhaol a wneir gan asiantaethau. Mae hyn wedyn yn niweidio ymddiriedaeth ac yn codi rhwystrau.

4.5. Cwestiwn allweddol i fynd i'r afael ag ef, felly, yw sut a **phwy all bontio'r rhaniad hwn** fel y gellir hwyluso rhannu gwybodaeth a phryderon. Pa weithwyr proffesiynol yn y gymuned a allai fod y 'llygaid a chlustiau'? Gallent gynnwys (ond nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- Athrawon
- Ymwelwyr Iechyd
- Nyrsys Ardal
- Nyrsys ysgol
- Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu/Swyddogion Cyswllt Ysgolion
- Gweithwyr Ieuenctid

- Staff Tai
- Gweithwyr Cymorth i Oedolion
- RSPCA
- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

Mae rhywfaint o waith ar hyn yn cael ei dreialu yng Ngogledd Caerdydd ar hyn o bryd.

4.6. Roedd y cyfranogwyr yn glir iawn ynghylch pwysigrwydd dal y 'darlun mwy' a'r risg y **gall label arwain at ffocws rhy gul.** Er enghraifft, gallai'r duedd i labelu sefyllfaoedd fel naill ai Cam-drin Plant yn Rhywiol neu Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant arwain at lwybrau ac ymatebion gwahanol iawn i ddioddefwyr, ac agweddau pwysig yn cael eu colli. Felly gall defnyddio'r term Cam-drin a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant fel man cychwyn ehangu asesiadau ac arwain at ddealltwriaeth gyfannol o risgiau ac anghenion.

4.7. Yn yr un modd, rhaid i weithwyr proffesiynol symud i ffwrdd o labelu plant fel rhai heriol neu anodd ac ystyried yn lle hynny pam eu bod yn ymddwyn fel y maent. Mewn geiriau eraill, mae'n bwysig i feddwl - **'gofidus nid trafferthus'**. Byddai dull ymarfer sy'n seiliedig ar drawma yn hwyluso hyn yn fawr.

4.8. Mae'n bwysig **gweld a deall plant a phobl ifanc drwy lens datblygiad plentyn**. Gall fod tuedd i ddiogelu pobl ifanc drwy ystyried eu haeddfedrwydd canfyddedig (er enghraifft, efallai y byddant o oedran yn dechnegol i roi caniatâd), yn hytrach na'u datblygiad a'u hamgylchiadau. Yn y sefyllfa hon nid oedd caniatâd, roedd y bobl ifanc yn dioddef camdriniaeth, camfanteisio a rheolaeth orfodol.

4.9. **Mae newid yn y goddefgarwch o ymddygiad a chamfanteisio rhywiol ac ymosodol mewn ysgolion yn**

**ofynnol**. Os na fydd hyn yn digwydd, bydd yn arwain at rai pobl ifanc yn peidio â chydnabod eu bod yn cael eu cam-drin neu eu hecsbloetio'n rhywiol. Mae perygl ei fod yn dod yn norm ac yna mae plant a phobl ifanc yn teimlo ei fod yn rhywbeth y mae'n rhaid iddynt 'ddioddef'. Mae gwaith ar y gweill ar y mater hwn. Disgwylir i adolygiad thematig gan Estyn gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr ac mae Bro Morgannwg a Chaerdydd yn cynnal 'Cynllun Ansawdd ar gyfer Ysgolion'.

4.10. Fel y dangosodd y sefyllfa dan sylw, **gall yr effaith ar ddioddefwyr fod yn hirhoedlog iawn ac effeithio ar genedlaethau'r dyfodol**. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y bydd profiadau dioddefwyr yn wahanol ac amrywiol ac felly **mae'n bwysig datblygu adnoddau hyblyg i ddiwallu eu hanghenion** ac i'w helpu i oresgyn y trawma y maent wedi'i brofi. Beth bynnag yw'r adnodd, yr hyn a all helpu yw:

- Cysondeb gweithwyr, fel y gall plant a phobl ifanc feithrin ymddiriedaeth
- Gweithio ar gyflymder y plentyn neu’r person ifanc. Mae angen iddynt deimlo'n barod ac yn abl i ymgysylltu â gwasanaethau therapiwtig.

## 5. DATBLYGU SYSTEMAU AC ARFERION

Nododd cyfranogwyr yn y sesiwn fyfyriol hon, a thrafodaeth o fewn y Panel, y meysydd canlynol a fyddai'n helpu i ddatblygu systemau ac ymarfer:

5.1. **Goruchwyliaeth a chymorth i gynnwys**:

5.1.1. Goruchwyliaeth aml-asiantaeth sy'n benodol i achos

5.1.2. Datblygu mwy o gefnogaeth gan gymheiriaid

5.1.3. Goruchwyliaeth anffurfiol, ad hoc ac ar gael yn rhwydd

5.2. **Hyfforddiant a datblygiad aml-asiantaeth**:

5.2.1. Rhaglen barhaus o seminarau a chyrsiau. Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi datblygu sleidiau y gellir eu cynnwys yn yr hyfforddiant diogelu gorfodol presennol a bydd ar gael yn y dyfodol agos iawn. Yn ogystal, bydd tri adnodd newydd yn dod allan dros y misoedd nesaf a fydd yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a gydag ymarferwyr. Mae'r rhain yn cynnwys arwyddion a dangosyddion, cyfathrebu â phlant a chefnogi rhieni a gofalwyr. Mae'r Ganolfan hefyd wedi'i chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu tri fideo hyfforddi a fydd ar gael yn y pen draw ar YouTube.

5.2.2. Mwy o fewnbwn ar 'Ymarfer Sy'n Seiliedig ar Drawma'.

5.2.3. Mynediad at ymchwil berthnasol a datblygiadau newydd yn y maes gwaith hwn a'u rhannu.

5.3. **Adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol** gan asiantaethau sy'n aelodau ar y gwaith y maent yn ei wneud i ddatblygu arfer, systemau ac arweiniad o amgylch Cam-drin a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

## CYDNABYDDIAETH

Hoffem gydnabod ac estyn 'diolch' i gynrychiolwyr o'r asiantaethau canlynol a fynychodd ac a gymerodd ran yn y Digwyddiad Ymarfer Myfyriol a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2020:

- Heddlu De Cymru
- Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Bro Morgannwg

- Addysg, Bro Morgannwg
- Addysg, Cyngor Caerdydd
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Barnardo’s
- Gwasanaethau Plant, Caerdydd
- Gwasanaethau Cyfreithiol Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro
    - CAMHS
    - Adran Iechyd Rhywiol
    - Bydwreigiaeth
    - Tîm Plant sy’n Derbyn Gofal
    - Y Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd
    - Nyrsio Iechyd Ysgolion
    - Gofal Sylfaenol
    - Yr Adran Achosion Brys